**Dyddiad: 29 Mai 2002**

# Cynllun Datblygu Gwledig Cymru - adroddiad ar gynnydd

## Pwrpas

1. Gwahoddir y Pwyllgor i roi ystyriaeth i'r cynnydd a wnaed gan Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig (ARAD) Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff partner o ran gweithredu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-06 (RDP).

## Crynodeb/Argymhellion

2. Ers i'r Cynllun gael ei gymeradwyo, bu gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r mesurau a ddewiswyd. Mae Tir Mynydd, Tir Gofal, y Cynllun Ffermio Organig a'r cynlluniau coedwigo wedi bod yn weithredol ers ei gymeradwyo. Lansiwyd y grantiau cyfalaf, y Grant Mentrau Fferm a'r Grant Gwella Ffermydd dan ambarél Cyswllt Ffermio fis Medi diwethaf ac mae'r grantiau Prosesu a Marchnata wedi bod ar gael ers Mai 2001.

## Y Cefndir

3. Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd y Cynllun Datblygu Gwledig ar 11 Hydref 2000. Mae'n berthnasol i Gymru gyfan ac eithrio'r rhannau hynny sy'n amlwg yn drefol ac yn ddatblygedig a bydd yn peri bod €149.57 miliwn yn cael ei ryddhau o adran Warantu Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop.

4. Roedd 2001 yn flwyddyn anodd o gofio'r problemau a achoswyd gan glwy'r traed a'r genau yn y DU, sy'n anochel wedi cael effaith andwyol ar y broses o weithredu'r Cynllun. Caiff y canlyniadau uniongyrchol eu hadlewyrchu yn yr adroddiadau ar gynnydd isod.

## Buddsoddi mewn Daliadau

5. Cyswllt Busnes: Nododd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru fod angen ymdrin â'r dirywiad yn incwm ffermio ac ystyried ffyrdd o annog ffermwyr i arallgyfeirio. O ganlyniad lansiwyd Cyswllt Busnes ar 17 Medi 2001. Bwriad y gwasanaeth arloesol hwn yw helpu teuluoedd sy'n ffermio i wella eu busnesau ffermio.

6. Ceir 3 chynllun grant cyfalaf o dan y mesur hwn, sydd wedi'u targedu at wahanol fathau o weithgarwch ac sy'n gweithredu ar wahanol gyfraddau grant. Rhoddir manylion hynt y cynlluniau hyn

isod.

7. Grantiau Mentrau Fferm a Grantiau Gwella Ffermydd: Mae'r cynlluniau hyn ar gael i deuluoedd sy'n ffermio a gwblhaodd Gynllun Datblygu Busnes Ffermio o dan Gyswllt Busnes. Y bwriad oedd lansio'r cynllun Cyswllt Busnes yng ngwanwyn 2001, ond oherwydd clwy'r traed a'r genau, ni fu'n bosibl gwneud hynny hyd fis Medi 2001. O ganlyniad, ni fu'n bosibl i ymgynghorwyr busnes ddechrau eu hymweliadau a helpu i ddatblygu cynlluniau busnes hyd yn hwyr iawn yn y flwyddyn, ac roedd yn anochel felly na ellid cwblhau'r cynlluniau mewn pryd er mwyn i geisiadau am grant cyfalaf gael eu cyflwyno yn 2001. Fodd bynnag, ers y flwyddyn newydd, bu mwy a mwy yn gweithredu'r Cynlluniau hyn ac mae 114 o geisiadau dilys wedi dod i law, gyda 47 ohonynt yn ceisio cefnogaeth o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Hyd yma, cymeradwywyd 9 o'r 47 cais a gyflwynwyd yn yr ardal nad yw'n ardal amcan 1, gan ymrwymo tua £108,000 o gymorth grant.

8. Grant Bach Prosesu a Marchnata:Lansiwyd y Cynllun gan Awdurdod Datblygu Cymru, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ym mis Mai 2001. Mae'r Cynllun yn gweithredu ar yr un egwyddorion â'r prif grant Prosesu a Marchnata ond mae wedi'i dargedu at gwmnïau llai a phrosiectau sy'n costio llai na £40,000. Caiff y Cynllun ei reoli gan Awdurdod Datblygu Cymru gyda chymorth yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i asesu a monitro. Mae un prosiect wedi'i gymeradwyo, sy'n fuddsoddiad o £10,000.

**Hyfforddiant**

9. Mae'r Cynllun Datblygu Busnes Ffermio a'r Adolygiad o Opsiynau Busnes Ffermio - mae'r olaf ar gael i deuluoedd sy'n ffermio y lladdwyd eu da byw yn ystod clwy'r traed a'r genau - yn cynnwys dadansoddiad o anghenion hyfforddi, a elwir yn Wiriad Sgiliau (SkillCheck).

10. Mae'r Gwiriad Sgiliau hwn, a wneir gan Ymgynghorydd Busnes Cyswllt Ffermio ynghyd â'r teulu sy'n ffermio, yn ymdrin â sgiliau pawb sy'n gysylltiedig â'r busnes ffermio. Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar wella sgiliau a dysgu sgiliau newydd ac mae'n bosibl y gellir ei gysylltu â chais am grant cyfalaf yn y dyfodol. Yna, caiff rhestr ei llunio o'r sgiliau sydd angen eu datblygu, yn ôl blaenoriaeth.

**Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel/Tir Mynydd**

11. Mae'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig wedi cynnal gwerthusiad o flwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun Tir Mynydd. Mae'r dadansoddiad hwn o'r gwahaniaeth rhwng y Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel a Thir Mynydd, o ran y gefnogaeth a roddir i ddaliadau unigol, wedi archwilio'r lefelau elw a cholled y bydd ffermwyr wedi'u profi wrth symud o daliadau fesul pen i daliadau'n seiliedig ar dir.

12. Er mwyn helpu ffermwyr drwy gyfnod o newid, cyflwynwyd rhwyd ddiogelwch am dair blynedd gyntaf cynllun Tir Mynydd. Roedd hyn yn sicrhau y câi'r ffermwr o leiaf 90% o'r taliad a gâi o dan y

cynllun Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel blaenorol. Mae'r dadansoddiad wedi dangos mai dim ond ychydig dros 450 o ffermwyr a gollodd fwy na £1000, er bod bron i 1000 o ffermwyr wedi ennill mwy na £1000 yn sgil y newid i Tir Mynydd. Roedd yr ymateb i elfen 2 y cynllun yn uchel iawn gyda 90% o gynhyrchwyr yn bodloni'r gofynion i dderbyn y taliadau ychwanegol.

13. Mae'r rhwyd ddiogelwch ar gyfer 2002 wedi'i lleihau i 80% a'r bwriad yw ei lleihau am y tro olaf i 50% y flwyddyn nesaf. O ran Tir Mynydd 2002, mae 10,528 o geisiadau wedi'u talu, sef tua £36,100,000 mewn cymhorthdal.

**Tir Gofal**

14. Erbyn diwedd 2001, roedd 630 o gytundebau Tir Gofal wedi'u llofnodi'n ffurfiol a 200 o ffermydd eraill wedi'u mapio'n llawn gyda chytundebau ar fin cael eu llunio, yn ymestyn dros arwynebedd o 57,000 ha, ac yn dwyn 1,668 safle hanesyddol dan reolaeth yn ogystal â chynnal a chadw 735km o hawliau tramwy cyhoeddus.

15. Rhwystrwyd gwaith prosesu'r ceisiadau yn ddifrifol yn ystod 2001 gan glwy'r traed a'r genau. Bu'n amhosibl i swyddogion prosiectau ymweld rhwng Chwefror ac Awst. Er i drefniadau negodi eraill gael eu cyflwyno, er enghraifft defnyddio ffotograffiaeth o'r awyr i nodi cynefinoedd, dim ond 7 cytundeb a lofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn. Un o'r prif resymau am y diffyg ymateb hwn oedd bod ffermwyr yn gyndyn i lofnodi cytundebau nad oeddent wedi'u negodi ar eu ffermydd.

16. Ers ailddechrau'r ymweliadau maes, gwnaed cryn gynnydd ac mae'r 5 mis o oedi yn y rhaglen waith yn sgil clwy'r traed a'r genau wedi'i leihau'n sylweddol.

**Y Cynllun Ffermio Organig**

17. Llofnodwyd 120 o gytundebau Ffermio Organig yn ystod 2001 gan droi 11,000 hectar yn organig, lle y caiff pob cynefin a nodir ei ddiogelu. Mae cyfanswm o 550 o ddaliadau wedi ymuno â'r Cynllun Ffermio Organig ers iddo gael ei gyflwyno ym 1999.

**Prosesu a Marchnata**

18. Lansiwyd y Cynllun hwn hefyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ym Mai 2001. Anelir hwn at brosiectau mwy (£40k+) sy'n ychwanegu gwerth, hyd at uchafswm o £1.2m. Mae grant ar gael ar gyfradd o 40% mewn ardaloedd Amcan 1 a 30% mewn mannau eraill. Caiff y cynllun ei reoli gan Awdurdod Datblygu Cymru gyda chymorth yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i asesu a monitro.

19. Hyd at fis Mai 2002, mae'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig ac Awdurdod Datblygu Cymru wedi cyd-asesu a chyd-gymeradwyo 20 o geisiadau grant prosesu a marchnata, sy'n golygu £17.3 miliwn o fuddsoddiad newydd yn Niwydiant Bwyd Cymru. Mae £6.8 miliwn ohono wedi'i ariannu gan

grantiau. Ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Amcan 1, bydd 3 phrosiect sy'n creu £3.2 miliwn o fuddsoddiad newydd, yn derbyn £950,000 mewn grantiau.

**Coedwigo**

**Coedwigaeth - Cynllun Grantiau Coetir**

20. Mae achlysur lansio strategaeth 'Coetir Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod haf 2001 wedi rhoi cyfle i werthuso cymorth grant yn y sector hwn. O ganlyniad, mae dau adolygiad wrthi'n cael eu cynnal ar hyn o bryd:

- adolygiad o gymorth grant ar gyfer rheoli'r coetir presennol. Disgwylir iddo gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ym Mehefin 2002;
- adolygiad o Gynllun Premiwm Coetir Ffermydd a choed newydd a blannwyd o dan y Cynllun Grantiau Coetir. Disgwylir iddo gyflwyno adroddiad ym Medi 2002.

21. Gan weithio ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi sicrhau bod arian ar gael i gefnogi'r Grant Prosesu Coed fel rhan o Gyswllt Ffermio. Hefyd, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y gweithgor Datblygu Coetiroedd a Strategaeth Bio-màs, sydd i fod i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ddiwedd Mai. Dros y flwyddyn ddiwethaf, y Cynllun Grantiau Coetir fu'r prif fodd, fel cynt, o gyrraedd y targedau coedwigaeth o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig, gan gynnwys y gwaith o blannu coed newydd ac o reoli coetir. Fodd bynnag, gallai hyn newid yn sgil yr adolygiad grantiau.

**Y Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd (FWPS*)***

22. Mae'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd ar gael i bob ffermwr yng Nghymru sydd am droi tir amaethyddol yn goedwig. Caiff y cynllun ei redeg ar y cyd â'r Cynllun Grantiau Coetir, sy'n cael ei weithredu gan y Comisiwn Coedwigaeth. Gwneir taliadau am gyfnodau amrywiol, yn ôl y math o goeden a blennir. Caiff iawndal ei dalu am yr incwm a gollwyd yn sgil peidio â defnyddio'r tir i ddibenion amaethyddol.

23. Hyd at fis Mai 2002, mae tua 650 o ffermwyr wedi cymryd rhan yn y cynllun gan ddenu tua £364,000 o grant.

**Erthygl 33 - Hyrwyddo'r Gwaith o Addasu a Datblygu Ardaloedd Gwledig**

24. Bydd y gefnogaeth dan Erthygl 33 y Rural Development Regulation [Rheoliad Datblygu Gwledig] (1257/1999) o 2002 ymlaen yn canolbwyntio ar y mesurau hynny sy'n cynyddu'r rhan a gymerir ym mywyd cymunedol, sy'n helpu i sefydlu ac ehangu mentrau dan arweiniad y gymuned ac sy'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'r gwaith o adfywio ardaloedd gwledig, yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol.

25. Dyma sut y bydd pump o'r mesurau yn cael eu cefnogi (dangosir y rhifau cyfatebol yn Erthygl 33 mewn cromfachau): **Gwasanaethau sylfaenol ar gyfer yr economi a'r boblogaeth wledig (5):** Rhoddir cefnogaeth i bartneriaethau cymunedol i wella gwasanaethau sylfaenol ar gyfer yr economi wledig yn Nwyrain Cymru mewn ffordd gost-effeithiol.

**Adnewyddu a datblygu pentrefi a diogelu'r dreftadaeth wledig (6):** Bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i bartneriaethau cymunedol i adnewyddu a datblygu'r adeiladau, y strydoedd a'r mannau cyhoeddus mewn pentrefi gwledig, i helpu i ddiogelu treftadaeth ardal wledig Dwyrain Cymru.

**Arallgyfeirio gweithgarwch amaethyddol a gweithgarwch sy'n agos at amaethyddiaeth i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau neu incwm arall (7):** Mae'r gefnogaeth dan y mesur hwn yn cynnwys ailddefnyddio adeiladau fferm diangen, datblygu mentrau newydd nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth, twristiaeth amaeth ac arlwyo.

**Annog twristiaeth a chrefftau (10):** Rhoddir cefnogaeth i gymunedau lleol i'w helpu i ddatblygu gweithgarwch twristiaeth a chrefft sy'n briodol i'w hardal a chynyddu cyfraniad y sectorau hyn i'r economi wledig.

**Diogelu'r amgylchedd yng nghyd-destun amaethyddiaeth, coedwigaeth a diogelu'r tirlun yn ogystal â gwella lles anifeiliaid (11):** Mae'r elfen hon yn cael ei defnyddio o fewn Cynllun Tir Gofal er mwyn ei gwneud yn bosibl i fwy o bobl gael mynediad.

26. Bydd rhif 11 yn cael ei weithredu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, i gyfateb â chynllun Tir Gofal, a bydd rhif 7 yn cael ei gyflawni drwy'r Grant Mentrau Fferm a roddir gan yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig. Mae'r cynlluniau ar gyfer rhifau 5, 6 a 10 wrthi'n cael eu datblygu.